***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1995 No. 3336

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, ENGLAND AND WALES

## The Town and Country Planning (General Development Procedure) (Welsh Forms) Order 1995

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *21st December 1995* |
| *Laid before Parliament* | *11th January 1996* |
| *Coming into force - -* | *14th February 1996* |

The Secretary of State for Wales, in exercise of the powers conferred on him by sections 59, 65, 74, 77(4), 79(4) and 193 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**), section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**), and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following Order—

### Citation, commencement, application and interpretation

**1.**—(1) This Order may be cited as the Town and Country Planning (General Development Procedure) (Welsh Forms) Order 1995 and shall come into force on 14th February 1996.

(2) This Order applies only in respect of land in Wales.

(3) In this Order—

"the Act"means the Town and Country Planning Act 1990;

"the principal Order"means the Town and Country Planning (General Development Procedure) Order 1995(**3**);

"land"has the meaning it has in the Act.

**2.**—(1) The form set out in Part 1 of Schedule 1 of this Order is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of the form set out in Part 1 of Schedule 1 to the principal Order (letter to be sent by a local planning authority when they receive an application for planning permission or for a certificate of lawful use or development).

(**1**) 1990 c. 8; section 65 was substituted by section 16 of the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34); sections 74(2), 77(4) and 79(4) were amended by paragraphs 17, 18 and 19 of Schedule 7 to the 1991 Act respectively; section 193 was substituted by section 10(1) of the 1991 Act.

(**2**) 1993 c. 38.

(**3**) S.I.1995/419.

(2) The form set out in Part 2 of Schedule 1 to this Order is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of the form set out in Part 2 of Schedule 1 to the principal Order (notification to be sent to an applicant when a local planning authority refuse planning permission or grant it subject to conditions).

(3) The forms set out in Part 1 of Schedule 2 to this Order are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used respectively instead of the forms set out in Part 1 of Schedule 2 to the principal Order (notices of an application or appeal for planning permission to be published or served on an owner or tenant).

(4) The forms set out in Part 2 of Schedule 2 to this Order are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used respectively instead of the forms set out in Part 2 of Schedule 2 to the principal Order (certificates for use with applications or appeals for planning permission relating to ownership of land and notice to be given to an agricultural tenant).

(5) The forms set out in Schedule 3 to this Order are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used respectively instead of the forms set out in Schedule 3 to the principal Order (notices issued by the local planning authority to publicise applications for planning permission).

(6) The form set out in Schedule 4 to this Order is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of the form set out in Schedule 4 to the principal Order (certificate of lawful use or development).

(7) Forms substantially to the like effect to the forms set out in Schedules 1 to 4 to this Order may be used.

*William Hague*
Secretary of State for Wales

21st December 1995

SCHEDULE 1

Article 2(1)

# PART 1

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**Llythyr i'w anfon gan awdurdod cynllunio lleol pan gaiff gais am ganiatâd cynllunio neu am dystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon.**

Diolch i chi am eich cais dyddiedig.......................................................................

a ddaeth i'm llaw ar.........................................................................................

Yr wyf yn dal i archwilio'ch ffurflen gais a'r cynlluniau a'r dogfennau amgaeëdig er mwyn gweld a ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith.*

Os caf fod eich cais yn annilys am nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion statudol yna ysgrifennaf atoch eto cyn gynted ag y gallaf.*

Erbyn (*nodwch y dyddiad ar ddiwedd y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad pryd y daeth y cais i law*) ..........................................................................................

- os nad ydych wedi cael gwybod bod eich cais yn annilys; neu
- *os nad ydych wedi cael gwybod y gwrthodwyd talu eich siec am y ffi; neu
- os na roddwyd penderfyniad ysgrifenedig i chi; neu
- os nad ydych wedi cytuno yn ysgrifenedig i estyn y cyfnod pryd y gellir rhoi'r penderfyniad,

yna gallwch apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 78/adran 195* Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Dylech apelio o fewn chwe mis a rhaid i chi ddefnyddio ffurflen y gallwch ei chael oddi wrth yr Arolygwyr Cynllunio, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ. Nid yw hyn yn gymwys os cyfeiriwyd eich cais eisoes at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.



*dileër lle nad yw'n briodol.

Article 2(2)

# PART 2

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**Hysbysiad i'w anfon at geisydd pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod caniatâd cynllunio neu'n ei roi yn ddarostyngedig i amodau** *(I'w arnodi ar hysbysiadau penderfyniad)*

**Apelau at yr Ysgrifennydd Gwladol**

- Os tramgwyddir chi gan benderfyniad eich awdurdod cynllunio lleol i wrthod caniatâd ar gyfer y datblygiad arfaethedig neu i'w roi yn ddarostyngedig i amodau, yna gallwch apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Os ydych am apelio, yna rhaid i chi wneud hynny cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, gan ddefynyddio ffurflen y gallwch ei chael oddi wrth yr Arolygwyr Cynllunio, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ.
- Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu cyfnod hwy ar gyfer rhoi hysbysiad apêl, ond ni fydd fel arfer yn barod i ddefnyddio'r pŵer hwn oni bai bod amgylchiadau arbennig sy'n esgusodi'r oedi wrth roi'r hysbysiad apêl.
- Nid oes angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried apêl os ymddengys iddo na allai'r awdurdod cynllunio lleol fod wedi rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad arfaethedig neu na allai fod wedi'i roi heb yr amodau a osodwyd ganddo, gan roi sylw i'r gofynion statudol, i ddarpariaethau unrhyw orchymyn datblygu ac i unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd o dan orchymyn datblygu.
- Yn ymarferol, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwrthod ystyried apelau yn unig am i'r awdurdod cynllunio lleol seilio ei benderfyniad ar gyfarwyddyd a roddwyd ganddo yntau.

**Hysbysiadau Prynu**

- Os bydd naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwrthod caniatâd i ddatblygu tir neu'n ei roi yn ddarostyngedig i amodau, gall y perchennog honni na all ddefnyddio'r tir mewn ffordd sy'n rhesymol fuddiol yn ei gyflwr presennol nac ychwaith beri y gellir defnyddio'r tir mewn ffordd sy'n rhesymol fuddiol trwy gyflawni unrhyw ddatblygiad a ganiatawyd neu a gâi ei ganiatáu.
- O dan yr amgylchiadau hyn, gall y perchennog gyflwyno hysbysiad prynu i'r Cyngor Dosbarth y lleolir y tir yn ei ardal. Bydd yr hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor brynu ei fuddiant yn y tir yn unol â darpariaethau Rhan VI Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.



*dileër lle nad yw'n briodol.

SCHEDULE 2 Article 2(3)

# PART 1

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 6 O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

*(i'w gyhoeddi mewn papur newydd neu i'w gyflwyno i berchennog* neu denant**)*

Datblygiad arfaethedig yn *(a)*..................................................................................

**Yr wyf yn hysbysu bod** *(b)*..................................................................................

yn gwneud cais i Gyngor *(c)*..................................................................................

am ganiatâd cynllunio i *(d)*..................................................................................

Dylai unrhyw berchennog* y tir neu denant* sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolebau ynghylch y cais hwn ysgrifennu i'r Cyngor yn *(e)*..................................................................................

erbyn *(f)*..................................................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys cloddio neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant daliad amaethyddol y mae unrhyw ran ohono wedi'i gynnwys yn y tir.

Llofnodwyd..................................

†Ar ran......................................

Dyddiad.....................................

*Datganiad o hawliau perchnogion*

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu i waredu eu heiddo, oni bai bod rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn prydles.

*Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol*

Fe all rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

† dileër lle nad yw'n briodol

---

Nodwch:
*(a)* cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
*(b)* enw'r ceisydd
*(c)* enw'r Cyngor
*(d)* disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
*(e)* cyfeiriad y Cyngor
*(f)* dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod gan ddechrau â dyddiad cyflwyno'r hysbysiad neu 14 diwrnod, gan ddechrau â dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (yn ôl y digwydd)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

# HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 6 O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

*(i'w godi yn achos cais am ganiatâd cynllunio sy'n cynnwys datblygiad cloddio a gweithio mwynau trwy waith tanddaear (yn ogystal â chyflwyno neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau angenrheidiol eraill yn yr Atodlen hon))*

Datblygiad arfaethedig yn *(a)* ..........................................................................................

**Yr wyf yn hysbysu bod** *(b)* ..........................................................................................

yn gwneud cais i Gyngor *(c)* ..........................................................................................

am ganiatâd cynllunio i *(d)* ..........................................................................................

Gall aelodau o'r cyhoedd archwilio copïau:

- o'r cais
- o'r cynlluniau
- ac o'r dogfennau eraill a gyflwynwyd gydag ef

yn *(e)* ..........................................................................................yn ystod

pob adeg resymol tan *(f)* ..........................................................................................

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolebau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at y

Cyngor yn *(g)* ..........................................................................................

........................................................erbyn *(f)*........................................................

Llofnodwyd.................................

†Ar ran ......................................

Dyddiad .....................................

† dileër lle nad yw'n briodol

Nodwch:
*(a)* cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
*(b)* enw'r ceisydd
*(c)* enw'r Cyngor
*(d)* disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
*(e)* cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais (y ceisydd sy'n gyfrifol am drefnu bod y cais ar gael i'w archwilio o fewn ardal yr awdurdod cynllunio lleol)
*(f)* dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod gan ddechrau â'r dyddiad pryd y caiff yr hysbysiad ei godi
*(g)* cyfeiriad y Cyngor

# Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## HYSBYSIAD O DAN ERTHYGLAU 6 A 9(1) O APÊL

*(i'w gyhoeddi mewn papur newydd neu i'w gyflwyno i berchennog* neu denant**)*

Datblygiad arfaethedig yn *(a)* ............................................................

**Yr wyf yn hysbysu bod** *(b)* ............................................................

ar ôl gwneud cais i Gyngor *(c)* ............................................................

am *(d)* ............................................................

yn apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru

yn erbyn penderfyniad y Cyngor†

yn sgîl methiant y Cyngor i roi hysbysiad penderfyniad†

Dylai unrhyw berchennog* y tir neu denant** sy'n dymuno gyflwyno cynrychiolebau ynghylch yr apêl hon ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y Swyddfa Gymreig yn yr Adran Gynllunio, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ, erbyn (e) ............................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys mwyngloddio neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant daliad amaethyddol y mae unrhyw ran ohono wedi'i gynnwys yn y tir.

Llofnodwyd ..................................

†Ar ran ..................................

Dyddiad ..................................

*Datganiad o hawliau perchnogion*

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu i waredu eu heiddo, oni bai bod rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn prydles.

*Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol*

Fe all rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

† dileër lle nad yw'n briodol

---

Nodwch:
*(a)* cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
*(b)* enw'r ceisydd
*(c)* enw'r Cyngor
*(d)* disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
*(e)* dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod gan ddechrau â dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, neu 14 diwrnod gan ddechrau â dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (yn ôl y digwydd)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref
(Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

# HYSBYSIAD O DAN ERTHYGLAU 6 A 9(1) O APÊL

*(i'w godi yn achos cais am ganiatâd cynllunio datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau trwy waith tanddaear (yn ogystal â chyflwyno neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau angenrheidiol eraill yn yr Atodlen hon))*

Datblygiad arfaethedig yn *(a)* ..........

**Yr wyf yn hysbysu bod** *(b)* ..........

ar ôl gwneud cais i Gyngor *(c)* ..........

i *(d)* ..........

yn apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru

yn erbyn penderfyniad y Cyngor*

yn sgîl methiant y Cyngor i roi hysbysiad penderfyniad*

Gall y cyhoedd archwilio copïau

- o'r cais
- o'r cynlluniau
- ac o'r dogfennau eraill a gyflwynwyd gydag ef

yn *(e)* ..........

yn ystod pob adeg resymol tan *(f)* ..........

Dylai unrhyw un sydd am gyflwyno cynrychiolebau ynghylch yr apêl hon ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Swyddfa Gymreig yn yr Adran Gynllunio, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ, erbyn *(f)* ..........

Llofnodwyd ..........

*Ar ran ..........

Dyddiad ..........

* dileër lle nad yw'n briodol

Nodwch:
*(a)* cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
*(b)* enw'r ceisydd
*(c)* enw'r Cyngor
*(d)* disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
*(e)* cyfeiriad y Cyngor
*(f)* dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod, gan ddechrau â'r dyddiad pryd y caiff yr hysbysiad ei godi

PART 2

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

# TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

**Tystysgrif A***(a)*

**Yr wyf yn ardystio:**

nad oedd neb ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl* amgaeëdig, ac eithrio'r ceisydd/apelydd*, yn berchennog*(b)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef.

Llofnodwyd.................................

*Ar ran .......................................

Dyddiad .....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

*(a)* Mae'r Dystysgrif hon i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatâd cynllunio (erthyglau 7 a 9(1) o'r Gorchymyn). Rhaid llenwi un o Dystysgrifau A, B, C neu D (neu'r dystysgrif briodol yn achos rhai ceisiadau mwynau), ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol.

*(b)* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

# TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

**Tystysgrif B***(a)*

**Yr wyf yn ardystio:**

Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol i bawb arall a oedd, ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl amgaeëdig, yn berchennog*(b)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef, fel y'u rhestrir isod.

| Enw'r perchennog *(b)* | Cyfeiriad lle cyflwynwyd yr hysbysiad | Dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad |
|---|---|---|

Llofnodwyd................................

*Ar ran .....................................

Dyddiad ....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

*(a)* Mae'r Dystysgrif hon i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatâd cynllunio (erthyglau 7 a 9(1) o'r Gorchymyn). Rhaid llenwi un o Dystysgrifau A, B, C neu D (neu'r dystysgrif briodol yn achos rhai ceisiadau mwynau), ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol.

*(b)* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

# Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

**Tystysgrif C***(a)*

**Yr wyf yn ardystio:**

- Nad wyf fi/Nad yw'r ceisydd/Nad yw'r apelydd* yn gallu rhoi Tystysgrif A neu B mewn perthynas â'r cais/apêl* amgaeëdig.
- Fy mod i/bod y ceisydd/bod yr apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol i'r personau a restrir isod, sef personau a oedd ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl*, yn berchnogion*(b)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apel* yn ymwneud ag ef.

| Enw'r perchennog *(b)* | Cyfeiriad lle cyflwynwyd yr hysbysiad | Dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad |
|---|---|---|

- Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi cymryd yr holl gamau rhesymol a oedd ar gael i mi/iddo/iddi* i ddarganfod enwau a chyfeiriadau perchnogion eraill *(b)* y tir, neu ran ohono, ond wedi methu gwneud hynny. Yr oedd y camau hyn fel a ganlyn:

  *(c)*.............................................................................................................

  .............................................................................................................

- Bod hysbysiad am y cais/apel*, fel y'i atodir i'r Dystysgrif hon, wedi'i gyhoeddi

  yn *(d)* .............................................................................................................

  ar *(e)* .............................................................................................................

Llofnodwyd.................................

*Ar ran .....................................

Dyddiad ....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

---

*(a)* Mae'r Dystysgrif hon i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatâd cynllunio (erthyglau 7 a 9(1) o'r Gorchymyn). Rhaid llenwi un o dystysgrifau A, B, C neu D (neu'r dystysgrif briodol yn achos rhai ceisiadau mwynau), ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol.

*(b)* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

Nodwch:

*(c)* disgrifiad o'r camau a gymerwyd

*(d)* enw papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal lle lleolir y tir

*(e)* dyddiad y cyhoeddi (y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn gynt nag 21 diwrnod cyn dyddiad y cais neu'r apêl)

# Gorchymyn cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

**Tystysgrif D***(a)*

**Yr wyf yn ardystio:**

- Nad wyf fi/Nad yw'r ceisydd/Nad yw'r apelydd* yn gallu rhoi Tystysgrif A neu B mewn perthynas â'r cais/apêl* amgaeëdig.
- Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi cymryd yr holl gamau rhesymol a oedd ar gael i mi/iddo/iddi* i ddarganfod enwau a chyfeiriadau pawb arall a oedd ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl*, yn berchennog *(b)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef, ond wedi methu gwneud hynny. Yr oedd y camau hyn fel a ganlyn:–

  *(c)*..........................................................................................................

  ..........................................................................................................
- Bod hysbysiad am y cais/apêl*, fel y'i hatodir i'r dystysgrif hon, wedi'i gyhoeddi yn *(d)*........

  ..........................................................................................................

  ar *(e)* ..........................................................................................................

Llofnodwyd.................................

*Ar ran .......................................

Dyddiad .....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

---

*(a)* Mae'r Dystysgrif hon i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau ar gyfer caniatâd cynllunio (erthyglau 7 a 9(1) o'r Gorchymyn). Rhaid llenwi un o dystysgrifau A, B, C neu D (neu'r dystysgrif briodol yn achos rhai ceisiadau mwynau), ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol.

*(b)* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

Nodwch:

*(c)* disgrifiad o'r camau a gymerwyd

*(d)* enw papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal lle lleolir y tir

*(e)* y dyddiad cyhoeddi (y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn gynt nag 21 diwrnod cyn dyddiad y cais neu'r apêl)

# Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

**Tystysgrif Daliadau Amaethyddol***(a)*

Rhaid i ba un bynnag o'r dewisiadau canlynol sy'n briodol ffurfio rhan o Dystysgrifau A, B, C neu D. Os y ceisydd yw'r unig denant amaethyddol rhaid iddo ef neu iddi hi ddileu'r dewis cyntaf a nodi "ddim yn gymwys" ar gyfer y wybodaeth y gofynnir amdani gan yr ail ddewis.

*• Nid oes dim o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef, yn ddaliad amaethyddol, nac yn rhan o ddaliad amaethyddol.

**neu**

*• Yr wyf i/Mae'r ceisydd/Mae'r apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol i bob person heblaw fi fy hun/ef ei hun/hi ei hun* a oedd, ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/yr apêl*, yn denant daliad amaethyddol ar y cyfan neu ran o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef, fel a ganlyn:

| Enw'r tenant | Cyfeiriad lle cyflwynwyd yr hysbysiad | Dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad |
|---|---|---|

Llofnodwyd.................................

*Ar ran .......................................

Dyddiad .....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

*(a)* Mae'r Dystysgrif hon i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatâd cynllunio (erthyglau 7 a 9(1) o'r Gorchymyn). Rhaid lenwi un o dystysgrifau A, B, C neu D (neu'r dystysgrif briodol yn achos rhai ceisiadau mwynau) ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol.

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol)

# TYSTYSGRIF O DAN ERTHYGL 7

*(i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatad cynllunio datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau trwy waith tanddaearol)*

Yr wyf yn ardystio:

*• Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol i'r personau a restrir isod a oedd, ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl* amgaeëdig, yn berchnogion*(a)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef.

| Enw'r perchennog *(a)* | Cyfeiriad lle cyflwynwyd yr hysbysiad | Dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad |
|---|---|---|

*• Nad oes unrhyw berson (heblaw fi/y ceisydd/yr apelydd*) a oedd, ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl amgaeëdig*, yn berchennog *(a)* ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apêl/* hwn yn ymwneud ag ef, yr wyf i/y mae'r ceisydd/y mae'r apelydd* yn gwybod ei fod yn berson o'r fath ac y mae ei enw a'i gyfeiriad yn hysbys i mi/i'r ceisydd/i'r apelydd* ond nid wyf i/nid yw'r ceisydd/nid yw'r apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol iddo.

• Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi codi'r hysbysiad angenrheidiol, wedi'i leoli a'i arddangos yn y cyfryw ffordd fel ei fod yn hawdd ei weld a'i ddarllen gan aelodau o'r cyhoedd, mewn o leiaf un man ymhob cymuned lle lleolir unrhyw ran o'r tir y mae'r cais/apêl* amgaeëdig yn ymwneud ag ef, fel y'u rhestrir isod.

| Cymuned | Lleoliad yr hysbysiad | Dyddiad y'i codwyd |
|---|---|---|

• Heblaw fel y nodir isod* fod yr hysbysiad hwn*/yr hysbysiadau hyn* wedi'i adael/wedi'u gadael* yn ei le/eu lle* am o leiaf saith diwrnod yn y cyfnod o 21 diwrnod yn union cyn gwneud y cais/apêl*.

*• Bod yr hysbysiad/hysbysiadau* canlynol wedi'i adael yn ei le/wedi'u gadael yn eu lle* serch hynny am lai na saith diwrnod mewn cyfnod heb fod yn fwy nag 21 diwrnod yn union cyn gwneud y cais/apêl*.

| Cymuned | Lleoliad yr hysbysiad | Dyddiad y'i codwyd |
|---|---|---|

Bod hyn wedi digwydd oherwydd/symud/celu/difwyno* yr hysbysiad/hysbysiadau* cyn i saith diwrnod fynd heibio yn ystod y cyfnod o 21 diwrnod a grybwyllwyd uchod. Nid fy mai neu'm bwriad i/nid bai neu fwriad y ceisydd/yr apelydd* oedd hyn.

Fy mod i/Bod y ceisydd/Bod yr apelydd* wedi cymryd y camau canlynol i ddiogelu ac i ail-godi'r hysbysiad:

*(b)* ..........................................................................................................

..........................................................................................................

• Bod hysbysiad ar y cais/apêl*, fel y'i hatodir i'r dystysgrif hon, wedi'i gyhoeddi yn y

*(c)*..........................................................................................................

..........................................................................................................



ar *(d)* ..........................................................................................................

**Tystysgrif Daliadau Amaethyddol**

Rhaid i ba un bynnag o'r dewisiadau canlynol sy'n briodol ffurfio rhan o'r dystysgrif hon. Os y ceisydd yw'r unig denant amaethyddol rhaid iddo ef neu iddi hi ddileu'r dewis cyntaf a nodi "ddim yn gymwys" ar gyfer y wybodaeth y gofynnir amdani gan yr ail ddewis.

*• Nid oes dim o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef yn ddaliad amaethyddol, nac yn rhan o ddaliad amaethyddol.

**neu**

*• Yr wyf i/Mae'r ceisydd/Mae'r apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad angenrheidiol i bob person heblaw fi fy hun/ef ei hun/hi ei hun* a oedd, ar y dyddiad 21 diwrnod cyn dyddiad y cais/apêl*, yn denant daliad amaethyddol ar y cyfan neu ran o'r tir y mae'r cais/apêl* yn ymwneud ag ef, fel a ganlyn:–

| Enw'r Tenant | Cyfeiriad lle cyflwynwyd yr hysbysiad | Dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad |
|---|---|---|

Llofnodwyd................................

*Ar ran .....................................

Dyddiad....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

---

*(a)* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliad neu fuddiant prydles nad yw'r cyfnod sy'n weddill o'u tymor yn llai na saith mlynedd, neu, berson sydd â hawl i gael buddiant mewn mwyn yn y tir (heblaw olew, nwy, glo, aur neu arian).

Nodwch:
*(b)* disgrifiad o'r camau a gymerwyd
*(c)* enw papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y lleolir y tir ynddo
*(d)* dyddiad y cyhoeddi (y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn gynt nag 21 diwrnod cyn dyddiad y cais neu'r apêl)

SCHEDULE 3 Article 2(5)

HYSBYSIAD O GAIS AM GANIATâD CYNLLUNIO

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref
(Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 8

*(i'w gyhoeddi mewn papur newydd, i'w arddangos ar y safle neu yn ei ymyl, neu i'w gyflwyno i berchnogion a/neu ddeiliaid y tir cyfagos).*

Datblygiad arfaethedig yn *(a)*......................................................................................

**Yr wyf yn hysbysu bod** *(b)* ......................................................................................

yn gwneud cais i Gyngor *(c)* ......................................................................................

am ganiatâd cynllunio i *(d)* ......................................................................................

Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r darpariaethau yn y cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle lleolir y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef*

Gall aelodau o'r cyhoedd archwilio copïau:

- o'r cais
- o'r cynlluniau
- ac o'r dogfennau eraill a gyflwynwyd gydag ef

yn *(e)* ......................................................................................yn ystod

pob adeg resymol tan *(f)* ......................................................................................

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolebau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at y

Cyngor yn *(g)* ......................................................................................

..........................................................erbyn *(f)*..........................................................

Llofnodwyd.................................
(Swyddog awdurdodedig y Cyngor)

*Ar ran Cyngor ............................

Dyddiad ....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

---

Nodwch:
*(a)* cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
*(b)* enw'r ceisydd
*(c)* enw'r Cyngor
*(d)* disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
*(e)* y cyfeiriad lle gellir archwilio'r cais
*(f)* dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod gan ddechrau â'r dyddiad pryd arddangosir yr hysbysiad gyntaf ar y safle neu yn ei ymyl neu pryd y'i cyflwynwyd i berchennog a/neu ddeiliad y tir cyfagos, neu gyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau â'r dyddiad pryd y cyhoeddir yr hysbysiad mewn papur newydd (yn ôl y digwydd)

# HYSBYSIAD O GAIS AM GANIATAD CYNLLUNIO

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

## HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 8 O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO YNGHYD Â DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

*(i'w gyhoeddi mewn papur newydd a'i arddangos ar y safle neu yn ei ymyl).*

Datblygiad arfaethedig yn *(a)* ..........................................................................................

**Yr wyf yn hysbysu bod** *(b)* ..........................................................................................

yn gwneud cais i Gyngor *(c)* ..........................................................................................

am ganiatâd cynllunio i *(d)* ..........................................................................................

a bod yna ddatganiad amgylcheddol ynghyd â'r cais.

Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle lleolir y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef*

Gall y cyhoedd archwilio copïau:

- o'r cais
- o'r cynlluniau
- o'r datganiad amgylcheddol
- ac o'r dogfennau eraill a gyflwynwyd gyda'r cais

yn *(e)* .......................................................................................................... yn ystod

pob adeg rhesymol tan *(f)* ..........................................................................................

Gall aelodau o'r cyhoedd gael copïau o'r datganiad amgylcheddol oddi wrth *(g)* ......................

cyhyd â bod stociau yn parhau, am dâl o *(h)* ..........................................................................................

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolebau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at y Cyngor yn *(i)* ..........................................................................................

.......................................................erbyn *(f)*.......................................................

Llofnodwyd.................................
(Swyddog awdurdodedig y Cyngor)

Ar ran Cyngor..............................

Dyddiad .....................................

* dileër lle nad yw'n briodol

Nodwch:
*(a)* cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
*(b)* enw'r ceisydd
*(c)* enw'r Cyngor
*(d)* disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
*(e)* y cyfeiriad lle gellir archwilio'r cais
*(f)* dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod, gan ddechrau â'r dyddiad pryd yr arddangosir yr hysbysiad gyntaf ar y safle neu yn ei ymyl, neu gyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau â'r dyddiad pryd y cyhoeddir yr hysbysiad mewn papur newydd (yn ôl y digwydd)
*(g)* y cyfeiriad lle gellir cael copïau o'r datganiad amgylcheddol (p'un a yw yr un fath ag (e) neu beidio)
*(h)* tâl a godir, os oes tâl
*(i)* cyfeiriad y Cyngor

SCHEDULE 4 Article 2(6)

# DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990: ADRANNAU 191 A 192 (fel y'u diwygiwyd gan adran 10 Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

## GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN DATBLYGU CYFFREDINOL) 1995: ERTHYGL 24

## TYSTYSGRIF DEFNYDD NEU DDATBLYGIAD CYFREITHLON

Mae Cyngor *(a)* ....................................................................drwy hyn yn ardystio bod/y buasai* y defnydd*/gweithrediadau*/mater* a ddisgrifir yn yr Atodlen Gyntaf i'r dystysgrif hon mewn perthynas â'r tir a bennir yn yr Ail Atodlen i'r dystysgrif hon ac a ddangosir ag ymyl*/â llinellau lletraws*/mewn lliw* *(c)* ........................................................................... ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y dystysgrif hon ar *(b)*........................................................ yn gyfreithlon o fewn ystyr adran 191 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), a hynny am y rheswm*/rhesymau* a ganlyn:

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

Llofnodwyd ...............................................................(Swyddog awdurdodedig y Cyngor)

Ar ran Cyngor (a) ....................................................................................................

Dyddiad......................................................................................................................

Atodlen Gyntaf
*(d)*

Ail Atodlen
*(e)*

Nodiadau

1 Rhoddir y dystysgrif hon at ddibenion adran 191*/192* Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn unig.

2 Mae'n ardystio bod*/y buasai* y defnydd*/gweithrediadau*/mater* a bennir yn yr Atodlen Gyntaf yn cymryd lle ar y tir a ddisgrifir yn yr Ail Atodlen yn gyfreithiol ar y dyddiad a bennir ac, felly, nad oedd*/na fuasai* yn agored i achos gorfodaeth o dan adran 172 Deddf 1990 ar y dyddiad hwnnw.

3 Nid yw'r dystysgrif hon yn gymwys ond i raddau'r defnydd*/gweithrediadau*/mater* a ddisgrifir yn yr Atodlen Gyntaf ac i'r tir a bennir yn yr Ail Atodlen a'i nodi ar y cynllun amgaeëdig. Gall unrhyw ddefnydd*/gweithrediadau*/mater* sy'n sylweddol wahanol i'r hyn a ddisgrifir neu'n sy'n ymwneud ag unrhyw dir arall olygu bod y perchennog neu'r deiliad yn agored i achos gorfodaeth.

*4 Mae effaith y dystysgrif wedi'i hamodi hefyd gan y ddarpariaeth yn adran 192(4) Deddf 1990, fel y'i diwygiwyd, sy'n datgan na thybir yn derfynol fod defnydd neu weithrediad a ddisgrifir yn gyfreithlon ond lle na chafwyd unrhyw newid sylweddol, cyn i'r defnydd gael ei sefydlu neu cyn i'r gweithrediadau ddechrau, yn unrhyw un o'r materion sy'n berthnasol wrth benderfynu ar gyfreithlondeb o'r fath.

* dileër lle nad yw'n briodol



Nodwch:
*(a)* enw'r Cyngor
*(b)* dyddiad y cais i'r Cyngor
*(c)* y lliw a ddefnyddiwyd ar y cynllun
*(d)* disgrifiad llawn o'r defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall, drwy gyfeirio, os bydd rhaid, at fanylion y cais neu'r cynlluniau a gyflwynwyd, gan gynnwys cyfeiriad at y dosbarth defnydd os oes un, a bennwyd o dan adran 55(2)(f) Deddf 1990 y mae'r defnydd ardystiedig

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni a bennwyd gan Atodlenni 1 i 4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 y gellir eu defnyddio mewn perthynas â thir yng Nghymru, sef—

(a) llythyr i'w anfon gan awdurdod cynllunio lleol at y ceisydd pan ddaw cais i law am ganiatâd cynllunio neu am dystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon (Rhan 1 Atodlen 1)

(b) hysbysiad i'w anfon at geisydd pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod caniatâd cynllunio neu'n ei roi yn ddarostyngedig i amodau (Rhan 2 Atodlen 1)

(c) hysbysiadau o gais neu apêl am ganiatâd cynllunio i'w cyhoeddi gan geisydd mewn papur newydd neu i'w cyflwyno i berchennog neu denant (Rhan 1 Atodlen 2)

(d) tystysgrifau i'w defnyddio gyda cheisiadau ac apelau am ganiatâd cynllunio sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth tir a hysbysiad i'w roi i denant amaethyddol (Rhan 2 Atodlen 2)

(e) hysbysiadau i'w cyhoeddi gan yr awdurdod cynllunio lleol i roi cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio (Atodlen 3)

(f) tystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon (Atodlen 4) (This note is not part of the Order)

This Order prescribes Welsh versions of the forms prescribed by Schedules 1 to 4 to the Town and Country Planning (General Development Procedure) Order 1995 which may be used in respect of land in Wales. The forms are—

(a) letter to be sent by a local planning authority to the applicant on receipt of an application for planning permission or certificate of lawful use or development *(Part 1 of Schedule 1)*

(b) notification to be sent to an applicant when a local planning authority refuse planning permission or grant it subject to conditions *(Part 2 of Schedule 1)*

(c) notices of an application or appeal for planning permission to be published by an applicant in a newspaper or served on an owner or tenant *(Part 1 of Schedule 2)*

(d) certificates for use with applications and appeals for planning permission relating to ownership of land and notice to be given to an agricultural tenant *(Part 2 of Schedule 2)*

(e) notices issued by the local planning authority to publicise applications for planning permission *(Schedule 3)*

(f) certificate of lawful use of development *(Schedule 4)*